# CYNGOR TREF PORTHMADOG

**Cofnodion Cyfarfod Rheolaidd y Cyngor Tref Tachwedd 14 2023**

**Presennol :- Cynghorwyr :-** Aled Griffith ( Cadeirydd), Gwilym Jones, Sandra Bodden Jones, Connor Westwood, Michael Roberts, Alwyn Gruffydd, Dr Melfyn Edwards, Carol Hayes, Marian Roberts ( Clerc)
**Absennol :-** Cyng Llywelyn Rhys

**176.11.23 Ymddiheuriadau:-** Cyng John Gwynedd Roberts

**177.11.23 Adroddiad y Cadeirydd.**

“ Croeso i gyfarfod mis Tachwedd.

Edrych yn ôl ers y cyfarfod diwethaf - teimlo fel cyfnod distaw cyn bwrlwm y Nadolig. Y tywydd wedi newid ond dal yn fwyn o ran y tymheredd.

Cofion - Diolch i Alwyn Gruffydd am sefyll i mewn ar Sul y Cofio ar Fryn Coffa, a chydymdeimlwn â phawb yn yr ardal sydd wedi colli eu hanwyliaid.

Y Stryd Fawr a chyrion y dref - Y stryd a’r siopau yn dechrau arddurno tuag at y Nadolig. Ambell i adeilad yn dal yn cael gwariant arnynt er mwyn agor yn y dyfodol e.e.. Hen Fanc Barclays, Grapevine ac ati.
Trist oedd gweld y siop ffrwythau olaf yn cau ar Stryd Fawr Porthmadog sef Siop R.G Pritchard, Llwyn Onn ar ôl 89 o flynyddoedd.
Da oedd gweld fod yr hen siop Wilkos yn cael ei gymryd drosodd dechrau flwyddyn nesaf, bydd yn helpu cadw cyflogaeth lleol a siopwyr yn yr ardal.

Diolch i’r Cynghorwyr a’r Clerc am ddod allan i archwilio Cae Pawb ar fore Sadwrn gwlyb, hefyd i gyfarfod safle croesfan Gorseddau ar lein y Cambrian wrth Rheilffordd Treftadaeth Ucheldir Cymru. Cyfarfod safle gwerth chweil i ddangos i Network Rail pa mor brysur yw'r ardal yma gydag ardal i dri busnes, cerddwyr a mynedfa i ddwy ysgol gerllaw. Cawn weld beth fydd y canlyniad.”

Apeliodd y Cadeirydd am fwy o’r Cynghorwyr i fynychu’r Gweithdy Gweledigaeth Creu Lle Porthmadog yn y Ganolfan rhwng 3 a 5 ar 23.11.23.

**178.11.23 Cadarnhau cywirdeb cofnodion Cyfarfod Llawn Hydref 10 2023**
Cafwyd yn gywir yn ôl cynnig Cyng Dr Melfyn Edwards, Cyng Gwilym Jones yn eilio.

**179.11.23 Cyfle i’r Cynghorwyr ddatgan diddordeb.**
Dim datganiad o ddiddordeb.

**180.11.23 CEISIADAU CYNLLUNIO**

**(a) Rhif Cais / Application No.: C23/0604/44/HY ( wedi ebostio 20.10.23)**
Lleoliad: Tesco Stryd Fawr, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9NU
Bwriad : Gosod dau 'gantri' dwy ochrog 5.7m wedi ei oleuo yn fewnol
**Penderfynwyd :- DIM GWRTHWYNEBIAD**

**(b) Rhif Cais .: C23/0816/44/RA ( wedi ebostio 3.11.23)**

Lleoliad : Penamser Industrial Estate, Porthmadog, LL49 9NZ
Bwriad : Cais i rhyddhau amod 6 o ganiatad cynllunio C19/0212/44/LL yn llawn sy'n ymwneud a mesurau i ymdrin a llygredd.
**Penderfynwyd :- DIM GWRTHWYNEBIAD**

**MATERION I'W DWYN GERBRON :-**

**181.11.23 Y Cynghorwyr i adrodd yn ôl ar unrhyw ganlyniad i'w hymdrech i chwilio am ddarpar Gynghorwyr.**
Roedd Cyng Michael Roberts wedi holi un person a'r Cyng Carol Hayes wedi holi 3 person – pob un o'r pedwar â rheswm i beidio ymgymryd â dyletswyddau Cynghorydd.
**Penderfynwyd :-** hysbysebu unwaith eto yn yr Wylan ac ar Facebook

**182.11.23 Ail-edrych ar fater 159.10.23 HYWYN WILLIAMS C.G., Cyllid ar gyfer gwella tiroedd er budd natur. ( Gweler gohebiaeth 1 10.10.23)**
**Penderfynwyd :-** y Clerc i gysylltu â Hywyn Williams i holi os fyddai plannu coed ar ardal wyrdd Llyn Bach yn gymwys i dderbyn y grant yma yn ôl cynnig Cyng Gwilym Jones, Cyng Dr Melfyn Edwards yn eilio.

**183.11.23 Ethol aelod yn lle Llinos Murphy ar yr Is-Bwyllgor Cyllid ac Eiddo**
**Penderfynwyd :-** derbyn cynnig Cyng Carol Hayes i fod yn aelod o'r Is-Bwyllgor Cyllid ac Eiddo.

**184.11.23 Penderfynu ar ddyfodol Is-Bwyllgor Nadolig 2023-24**
Mynegwyd siom fod gweithgareddau Nadolig eraill yn digwydd cyn noson Goleuo Port a chytunwyd ei bod yn drueni na fyddai cydweithio wedi bod rhwng yr unigolion sy'n trefnu â'r Cyngor Tref fel y gellid cynnal digwyddiad mawr ar y cyd. Cwestiynwyd rôl y Cyngor Tref yn ceisio cynnal gweithgaredd Nadolig yn y dyfodol.
**Penderfynwyd :-** gohirio unrhyw benderfyniad tan fis Ionawr pan gellir gwerthuso noson Goleuo Port.

**185.11.23 Rhannu gwybodaeth am drefn noson Goleuo Port 24.11.23**
Adroddodd y Clerc bod trefniadau'r noson mewn lle a bydd yn hysbysu'r Cynghorwyr yn agosach i'r amser gyda'r trefniadau terfynol. Roedd y Clerc yn apelio am gymorth a chefnogaeth gan y Cynghorwyr i dderbyn dyletswyddau ar y noson.
**Penderfynwyd :-** cofnodi diolch i'r Clerc am y gwaith trefnu gweithgareddau noson Goleuo Port yn ôl cynnig Cyng Carol Hayes.

**186.11.23 Cyng Gwilym Jones :- Cynnig bod y Cyngor Tref yn cefnogi cais Cyfeillion Borth y Gest i symud yr hysbysfwrdd i du mewn i'r lloches bws.**
**Penderfynwyd :-** gweithredu ar gynnig Cyng Gwilym Jones, Cyng Alwyn Gruffydd yn eilio.

187.11.23 Cyng Carol Hayes :- **Cynnig ysgrifennu at yr adran berthnasol yng Nghyngor Gwynedd i fynegi ein hanfodlonrwydd gyda'r diffyg gwaith cynnal a chadw ar ein meinciau cyhoeddus.**
Dangoswyd lluniau o'r Tîm Tacluso wrthi yn glanhau'r meinciau wrth y stesion yn dilyn cais gan y Clerc. Dangosodd y Clerc ar y sgrin sut gall y Cynghorwyr adrodd problem neu wneud cais uniongyrchol i'r Tim Tacluso weithredu i lanhau neu dacluso yn ôl y gofyn.
**Penderfynwyd :-** tynnu'r cais yn ôl a diolch i'r Clerc am hysbysu'r Tim Tacluso am gyflwr rhai o'r meinciau.

**188.11.23 Materion i'w dwyn gerbron y Cadeirydd unai er gwybodaeth neu i'w rhoi ar y Rhaglen ar gyfer y cyfarfod nesaf**. *Dyddiad cau Rhaglen Rhagfyr 12 2023 = Rhagfyr 2 2023 , ( Rheolau Sefydlog 8.1 " o leiaf deg diwrnod cyn cyfarfod y Cyngor".)*

- **Cyng Sandra Bodden Jones :**- cynnig ethol Cynghorydd i gymryd ei lle yn cynrychioli'r Cyngor Tref ar bwyllgor y Ganolfan.

- **Cyng Michael Roberts :-** cynnig gwneud cais i Adran Forwrol Cyngor Gwynedd i beidio caniatau gadael cŵn yn rhydd heb dennyn ar draeth Morfa Bychan.
- **Cyng Carol Hayes :-** cynnig penderfynu ar y ffordd ymlaen i ail-gydio yn y broses gefeillio gyda Wicklow.

**189.11.23 Gohebiaeth : Rhestr Aros am Ateb (**copi ynghlwm)**.**
Cytunwyd fod y rhestr Aros am Ateb wedi gwella'r aruthrol ac wedi lleihau yn sylweddol.

**GOHEBIAETH :**

**190.11.23 G.L.JONES, Adroddiad archwiliad offer chwarae Cae Bodawen ( copi electronig 16 tudalen yn unig) Copi papur ar y bwrdd.**
**Penderfynwyd :-** pasio'r adroddiad ymlaen i sylw'r Is-Bwyllgor Eiddo ar 28.11.23.

**191.11.23 IWAN AP TREFOR, Ymateb i ail-yrru 52.6.23 arwydd 30 garej Penamser**
**Penderfynwyd :-** derbyn y wybodaeth

**192.11.23 EURYN WILLIAMS, Ymateb i 167.10.23 llwybr Peniel**
**Penderfynwyd :-** derbyn y wybodaeth

**193.11.23 CYFOETH NAT. CYMRU, Diweddariad Prosiect Rheoli Llifogydd Porthmadog Dogfen copi electronig 4 tudalen yn unig.**
**Penderfynwyd :-** derbyn y wybodaeth

**194.11.23 TIM TACLUSO, Ymateb i 150.10.23 cŵyn am y gwasanaeth ( gweler lluniau 2 a 3)**
**Penderfynwyd :-** derbyn y wybodaeth

**195.11.23 Y GANOLFAN, Ymateb i 154.10.23 trefniadau Goleuo Port**
**Penderfynwyd :-** derbyn y wybodaeth

**196.11.23 UN LLAIS CYMRU, Adolygiad o iechyd democrataidd Cynghorau Cymuned**
**Penderfynwyd :-** derbyn y wybodaeth

**197.11.23 DEWI WYN OWEN C.G., Ymateb i 14.5.23 llwybr Carreg Samson**
Deallwyd bod y tir ble mae'r arwyddion yma yn perthyn i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol ac ar lês i'r Clwb Golff. Mae'r polyn wedi ei osod gan Gyngor Gwynedd i ddal y bin baw ci ond mae trigolion tai cyfagos wedi gosod arwyddion uniaith Saesneg ar y polyn.
**Penderfynwyd :-** ysgrifennu at y Clwb Golff i ofyn iddynt roi arwyddion dwyieithog ar y polyn yn ôl cynnig Cyng Alwyn Gruffydd, Cyng Michael Roberts yn eilio.

**198.11.23 C.T.PWLLHELI, Ymateb i 152.10.23 holi am gyflogi glanhawr stryd**
**Penderfynwyd :-** ysgrifennu'n ôl i Glerc Pwllheli i ddiolch iddo am ei ymateb a gohirio unrhyw benderfyniad am y tro gan fod y Tîm Tacluso i'w weld yn effeithiol iawn ar hyn o bryd yn ôl cynnig Cyng Carol Hayes, Cyng Alwyn Gruffydd yn eilio.

**199.11.23 MENTER MÔN, Cronfa Grymuso Gwynedd**
**Penderfynwyd :-** derbyn y wybodaeth

**200.11.23 SIAN PENNANT C.G., Ymateb i 151.10.23 arwyddion Porthmadog (gweler lluniau 1)**
Dangoswyd lluniau o'r arwyddion ar y ffordd i mewn i Borthmadog o gyfeiriad Cricieth, Tremadog,Y Cob a Morfa Bychan. Cytunwyd nad oeddent mewn cyflwr rhy ddrwg a nodwyd eu bod i gyd yn cofnodi gefeillio rhwng Porthmadog â Wicklow yn yr Iwerddon. Holwyd os oedd y cysylltiad gefeillio yn parhau i fodoli. Clywyd fel y mae Pwyllgor Efeillio Wicklow wedi ail-ymgynnull yn ddiweddar yn dilyn toriad dros y cyfnod Cofid ac yn awyddus i ail-gydio yn y broses o drefnu ymweliad â Porthmadog.

**Penderfynwyd :-** gofyn i'r Tîm Tacluso lanhau'r 4 arwydd a drafodwyd uchod a rhoi'r mater o ail-sefydlu'r pwyllgor Efeillio ar raglen cyfarfod mis Rhagfyr, yn ôl cynnig Cyng Carol Hayes.

**201.11.23 ADRAN AMGYLCHEDD C.G., Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd 2024-2039**
**Penderfynwyd :-** derbyn y wybodaeth

**202.11.23 CORNERSTONE, Llythyr Darpar Gais Cynllunio**
**Cynlluniau'r cais (7 tudalen electronig yn unig)**
**Penderfynwyd :-** derbyn y wybodaeth

**203.11.23 RHIAN HUGHES C.G., Cyflwyno trefi smart**
**Penderfynwyd :-** derbyn y wybodaeth

**204.11.23 PANEL ANNIBYNNOL CYMRU, Lwfansau Cynghorwyr**
Nododd y Clerc iddi yrru ymlaen ebost atodol yn cynnwys cadarnhâd na fydd y Lwfans Cynghorydd o £156 y flwyddyn yn cael ei drethu o 2024 ymlaen.
**Penderfynwyd :-** derbyn y wybodaeth

**205.11.23 PAULA STEWART, "SMART WATER"**
**Penderfynwyd :-** derbyn y wybodaeth

**206.11.23 ADRAN CYNLLUNIO, Ymateb i 123.9.23 Goleuadau'r barbwr Viva**
**Penderfynwyd :-** derbyn y wybodaeth

**207.11.23 ADRAN CYNLLUNIO, Ymateb i 170.10.23 Cais cynllunio bwrdd dehongli Madocks**
**Penderfynwyd :-** derbyn y wybodaeth

**208.11.23 BRENDA TAYLOR, Cyfeillion Alltwen**
**Penderfynwyd :-** derbyn y wybodaeth ac ysgrifennu'n ôl i roi caniatâd i osod baneri ar ffens Cae Chwarae Bodawen.

**209.11.23 ADRAN GYFREITHIOL C.G., Dyfarniad cais trwyddedu Clwb Llyn Bach**
**Penderfynwyd :-** derbyn y wybodaeth

**210.11.23 GWASANAETH TRWYDDEDU C.G., Ymgynghoriad :: = Cais Trwydded Eiddo**

**Newydd -**
**B&M Store, Heol Fadog, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9BU**
**(copi electronig yn unig)**
**Penderfynwyd :-** derbyn y wybodaeth a datgan DIM GWRTHWYNEBIAD.

**<u>211.11.23 MATERION ARIANNOL</u> :**

**Derbyniadau :**

| | | |
|---|---|---|
| H.S.B.C. | Llog Banc Medi / Hydref 2023 | £ 54.78 |
| FISHER GERMAN | Archwilio Cae Bodawen Nat Grid | £ 750.00 |

**Awdurdodwyd y taliadau canlynol yn ôl cynnig Cyng Alwyn Gruffydd, Cyng Sandra Bodden Jones yn eilio:-**

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1 | Marian Roberts | LLinell Ffôn a Wê Hydref 2023 | £ 59.09 |
| 2 | Marian Roberts | Cyflog Clerc Hydref 2023 | £ 975.10 |
| 3 | Cyllid a Thollau ei Fawrhydi | Treth Incwm cyflog Clerc Hydref 2023 | £ 243.78 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 4 | Gardencraft | Llenwi tybiau blodau | £ 420.00 |
| 5 | Y Ganolfan | Cyfarfodydd Medi a Hydref | £ 80.00 |
| 6 | Y Ganolfan | Clwb Ieuenctid o 5.9.23 hyd at 19.12.23 | £ 750.00 |
| 7 | Criccieth Cleaning | Glanhau llochesi bws | £ 201.60 |
| 8 | Marian Roberts | Ad-daliad am 162 x “Advent Calendar” Goleuo Port | £ 243.00 |
| 9 | Yr Wylan | Hysbyseb swydd Clerc Hydref | £ 20.00 |

( Mae copi o bob siec ar gael i’w harchwilio ar gyfer awdit/rheolau ariannol)

Daeth y cyfarfod i ben am 20.10.

Marian Roberts
( Clerc)
*17.11.23*